| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **25 Hydref 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy/Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd/Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu** |
| **Teitl:** | **Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae angen i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn wahanol i gwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn y dyfodol a lleihau'r baich o gostau cynyddol trin gwastraff. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd arfaethedig, ac mae'n tynnu sylw at y manteision amgylcheddol ac ariannol sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu adborth o'r arolwg "Ailgylchu Mwy, Gwastraffu Llai" a gweithgarwch ymgysylltu arall y mae'r gwasanaeth wedi ei wneud i hysbysu'r cynnig i symud i system weithredu newydd sy'n casglu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân yn wythnosol a'r llif gwastraff gweddilliol sy'n weddill bob 4 wythnos.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn sesiwn Briffio'r Cyngor ar 11 Mehefin 2018, gofynnodd yr Aelodau am gynnal modelu pellach yn unol â dyluniad newydd ar gyfer y gwasanaeth gwastraffu ac ailgylchu a fyddai'n addas ar gyfer y dyfodol; uchafu ar fuddion amgylcheddol; a helpu i fynd i'r afael â phwysau cyllideb o £900K yn y gwasanaeth. Cytunwyd y byddai'r cynigion dylunio gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried ar ôl i'r arolwg "Ailgylchu Mwy, Gwastraffu Llai" a'r modelu manwl ddod i ben.

2.2. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio i alluogi'r Aelodau i graffu ar y cynllun gwasanaeth newydd arfaethedig a'r polisïau casglu gwastraff drafft **(Atodiad I)**. Bydd yr opsiwn a ffafrir yn gweld y mwyafrif o drigolion y sir yn symud i wasanaeth ailgylchu wythnosol o ymyl y ffordd a gwasanaeth pedair wythnos ar gyfer y gwastraff na ellir ei ailgylchu sy'n weddill. Pe bai'r Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo dyluniad y gwasanaeth, gall swyddogion gwblhau'r goblygiadau cyfalaf a refeniw, er mwyn cyflwyno'r cynigion i'r Cabinet i'w hystyried. Drwy Raglen Newid Cydweithredol Llywodraeth Cymru (CCP), mae'r newid dewisol yn y gwasanaeth wedi ei fodelu ochr yn ochr ag ystod o opsiynau, gan ddefnyddio ein data sylfaenol ein hunain, a Chyfarpar Dadansoddol Ochr y Palmant sefydledig WRAP (KAT), a ddefnyddir yn helaeth gan awdurdodau eraill i ymgymryd â newidiadau o'r raddfa hon. Mae'r model yn cymryd gwersi a ddysgwyd o newidiadau gwasanaeth awdurdodau lleol eraill i ddarparu rhagamcanion ar ofynion adnoddau, costau a pherfformiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (**Atodiad III**) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2 Bod y Pwyllgor yn nodi bod yr arbedion refeniw presennol rhagamcanedig o £807,000 (**Adran 6**), sy'n gyflawnadwy o weithredu'r dyluniad gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu arfaethedig, yn uwch nag unrhyw opsiwn arall a fodelwyd.

3.3 Bod y Pwyllgor yn nodi bod y manteision cymdeithasol (**Atodiad III [2]**) a'r goblygiadau ariannol (**Adran 6.3**) o ddefnyddio'r trydydd sector ar gyfer casglu tecstilau a WEEE (Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff), ac argymell y parhad ac ehangiad trefniant gyda Menter Gymdeithasol o Sir Ddinbych ar gyfer casglu, ailddefnyddio ac ailgylchu'r deunyddiau hyn.

3.4 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r dyluniad gwasanaeth newydd arfaethedig ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu fel yr amlinellir yn **Atodiad I [A]** i weithredu Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Casgliadau Gwastraff ac i alinio isadeiledd casgliadau ailgylchu gyda'r pum Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.

3.5 Bod y Pwyllgor yn nodi bod y Polisi Casglu Gwastraff Cartrefi drafft (**Atodiad I [B]**) wedi'i ddylunio i gefnogi gweithredu a rheoleiddio'r gwasanaeth arfaethedig er mwyn bodloni arbedion refeniw a thargedau amgylcheddol.

3.6 Bod y Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cefnogaeth cyllid cyfalaf o £4M yn 2019/20 a £3M pellach ar 2020/21 ar gyfer gweithredu casgliadau didoli ymyl y ffordd, a gofyn i'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a WRAP i sicrhau'r holl gronfeydd cyfalaf ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd.

3.7 Bod y Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet cyn gynted â phosibl (yn amodol ar gyflawni argymhelliad 3.6) i argymell gweithredu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd a amlinellir yn **Atodiad I**.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Fel y nodwyd ym Mriffio'r Cyngor ar 11 Mehefin 2018, mae gan y gwasanaeth gwastraff bwysau o £700k yn 2018/19, a fydd yn codi i o leiaf £900k o 2019/20. Ar hyn o bryd, dywedir mai tua £807,000 y flwyddyn[1] yw'r arbedion potensial cyfun sydd ar gael o newid i fodel Didoli Ymyl y Ffordd ar gyfer ailgylchu a newid i gasgliad gwastraff gweddilliol bob 4 wythnos. Caiff hyn ei gyflawni yn bennaf trwy gasglu deunydd ailgylchu o ansawdd uwch sy'n cynhyrchu incwm sy'n cydbwyso'r costau casgliadau yn rhannol.

4.2 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw'r ddogfen strategaeth wastraff gyffredinol ar gyfer Cymru sy'n nodi polisïau a thargedau lefel uchel Llywodraeth Cymru. Mae'r targedau ailgylchu ar gyfer Awdurdodau Lleol yn cael eu cyflwyno'n statudol gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010. Gellir codi dirwy o hyd at £200 y dunnell ar Awdurdodau sy'n methu â chyrraedd targedau lwfans tirlenwi a'r targedau ailgylchu statudol. Mae'r targedau ar gyfer canran y gwastraff a ailddefnyddir, a ailgylchir ac

[1] **Amcangyfrifon yw'r arbedion ariannol, yn seiliedig ar y Modelu KAT diweddaraf, ond gallant newid oherwydd ansicrwydd o ran costau depos.**

a gompostir yn 64% ar gyfer 2019/20 a 70% yn 2024/25. Cyfarfu'r Sir â tharged 2019/20 dair blynedd yn gynnar, ond mae cyfraddau ailgylchu ers hynny wedi aros yr un fath. Mae adolygiad o casgliadau gwastraff Glasbrint Llywodraeth Cymru a wnaed gan Eunomia ym mis Mawrth 2016[2] yn cydnabod ar gyfer yr awdurdodau sy'n perfformio orau (fel Sir Ddinbych), y ffordd fwyaf effeithiol o wella perfformiad ailgylchu ymhellach yw trwy weithredu cyfyngiadau ar wastraff gweddilliol, megis lleihau maint biniau neu leihau'r amlder y cânt eu casglu. Mae eu hadroddiad yn dod i'r casgliad ei fod yn "synhwyrol" i ymchwilio i gynnwys casgliadau sbwriel bob tair neu hyd yn oed pedair wythnos i'r safon ac yn dadlau bod deunydd o safon uchel sy'n deillio o weithredu didoli ymyl y ffordd hefyd yn debygol o gefnogi cadw deunyddiau o fewn economiau Cymru a'r DU - gan arwain at fuddion cymdeithasol ac economaidd yn unol ag amcanion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.3 Mae ystadegau diweddar o Gonwy (sydd wedi treialu casglu gwastraff gweddilliol bob 3 a 4 wythnos) yn nodi bod casgliadau 4 wythnos yn arwain at y cyfraddau ailgylchu uchaf (cynnydd o 14% ar gasgliad 4 wythnos yn erbyn cynnydd o 5% ar gasgliad 3 wythnos)[3]. Fel y nodwyd yn sesiwn Briffio'r Cyngor ar 11 Mehefin 2018, mae'r cynnydd cyfartalog mewn perfformiad ailgylchu gan awdurdodau lleol Cymru sydd â chasgliadau gwastraff gweddilliol cyfyngedig yn fwy na 8%.

4.4 Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd - Pwyllgor Trawsbleidiol) ei Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2014. Mewn perthynas â chynyddu ailgylchu a hyrwyddo lleihau gwastraff, nododd yr adroddiad ffafriaeth dros gan gyfyngiadau ar wastraff gweddilliol yn hytrach na gorfodaeth a dirwyon:

> *"Gall mesurau meddalach i annog cyfraddau uwch o ailgylchu, fel lleihau amlder a maint casgliadau gwastraff gweddilliol, gael effaith gadarnhaol os cânt eu rheoli'n briodol. Os caiff ystod eang o ddeunyddiau eu casglu ar gyfer ailgylchu a chompostio, dylai fod lleihad mewn gwastraff gweddilliol cartrefi. Ni ddylai lleihau'r casgliadau gwastraff gweddilliol gael effaith ar yr aelwydydd sy'n cymryd rhan lawn mewn rheoli gwastraff yn eu hardal."*

4.5 Mewn sesiwn briffio yn y Cyngor ym mis Mehefin 2018, rhoddwyd gwybodaeth ar bump opsiwn dylunio gwasanaeth. Nododd y modelu fod yr opsiwn casglu ailgylchu o ymyl y ffordd a'r casgliad 4 wythnosol cyfunol i gynhyrchu'r arbedion refeniw uchaf (£780K), yn bennaf oherwydd yr hwb o £7miliwn o Gyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r newidiadau a oedd yn lleihau'r buddsoddiad cyfalaf blynyddol sydd ei angen yn sylweddol dros gyfnod o 7 mlynedd. Rhagwelwyd hefyd gynnydd o 3.1% mewn perfformiad ailgylchu, er bod hyn yn cael ei ystyried yn amcangyfrif ceidwadol. Cydnabuwyd yr opsiwn hwn fel yr un mwyaf tebygol o bontio'r bwlch cyllido refeniw o fewn y gwasanaeth. Yn sesiwn Briffio'r Cyngor ar 11 Mehefin, 2018, roedd swyddogion wedi ymrwymo i fireinio'r costau a chynnal gwaith pellach ar ddyluniad y gwasanaeth i gyfrif am yr heriau y gallai gwasanaeth casgliad gweddilliol 4 wythnos achosi i gartrefi a allai ei chael yn anodd mabwysiadu'r model casglu "safonol". Mae'r prif newidiadau wedi arwain at welliant bach i'r ffigur refeniw o £4K, neu £27k os gwneir y penderfyniad i beidio â pharhau'r bartneriaeth gyda

[2] **Adolygiad o Lasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru, Eunomia (Mawrth 2016)**

[3] **Bydd effeithiau uwch yn cael eu gwireddu yng Nghonwy, o'i gymharu â Sir Ddinbych, oherwydd y gwahaniaethau yn y llinell sylfaen dylunio gwasanaeth a pherfformiad hanesyddol.**

Menter Gymdeithasol leol ar gyfer casglu tecstilau (**Adran 6.3**). Mae'r manylion yn **Atodiad III** ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Newid i'r pwynt cyflwyno ar gyfer ailgylchu yng ngogledd y sir (Effaith ariannol gadarnhaol);
- Mwy o adnoddau ar gyfer casgliadau "ansafonol" (e.e. Tai amlfeddiannaeth a chwsmeriaid sachau) (effaith ariannol negyddol);
- Dyluniad gwasanaeth, lefelau adnoddau a pholisi wedi'u cadarnhau ar gyfer gwasanaeth casglu AHP (clytiau a chynhyrchion anymataliaeth) (Effaith ariannol niwtral ar y model drafft gwreiddiol);
- Ystyried gwasanaeth gwastraff anifeiliaid anwes (Effaith ariannol negyddol os caiff ei weithredu).

4.6 Manylir ar y model gwasanaeth a ystyrir fel yr un mwy manteisiol yn economaidd ac amgylcheddol i'r Cyngor yn **Atodiad I [A].** Mae'r gwasanaeth safonol a gynigir i'r mwyafrif o gartrefi wedi'i grynhoi yn Nhabl 1. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwasanaeth casglu gwastraff hylendid dynol (AHP) yn rhad ac am ddim bob wythnos y gellir gofyn amdano.

4.7 Cynigir amrywiadau i'r gwasanaeth safonol i aelwydydd cymwys yn unol â'r Polisi Casglu Gwastraff Cartrefi drafft (**Atodiad I [B]**).

4.8 Bydd aelwydydd yn cael 57 litr yn fwy o gapasiti bob wythnos ar gyfer rheoli gwastraff. Dyma'r effaith gyfunol o gael 67 litr ychwanegol yr wythnos i'w ailgylchu, a 10 litr llai yr wythnos ar gyfer gwastraff gweddilliol. Bydd ailgylchu sych yn cael ei gynyddu i gasgliad wythnosol. Er mwyn ariannu'r cynnydd mewn casgliadau ailgylchu, ac i annog aelwydydd i ddidoli eu sbwriel, bydd gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gasglu bob 4 wythnos. Bydd y rhan fwyaf o gartrefi yn gymwys i gael bin 240 litr mwy, sy'n golygu bod capasiti gwastraff na ellir ei ailgylchu yn lleihau dim ond 10 litr yr wythnos. Ceir manylion pellach am faint y cynhwysyddion a'r aelwydydd cymwys yn y polisi casgliadau gwastraff cartref drafft, **Atodiad I [A]**.

**Tabl 1**: Y ddarpariaeth gwasanaeth SAFONOL newydd arfaethedig:

| Math o Wastraff Tŷ | Darpariaeth Cynhwysydd | Amlder casgliad (Gwasanaeth Newydd) | Capasiti Wythnosol (Gwasanaeth Sy'n Bodoli) | Capasiti Wythnosol (Gwasanaeth Newydd) |
|---|---|---|---|---|
| Gwastraff Bwyd | Cadi cegin arian / Cadi oren ymyl y ffordd/ bagiau compostadwy | Bob wythnos (Cerbyd Didoli Ochr y Ffordd) | 23L | 23L |
| Defnyddiau ailgylchadwy sych: Papur, Cardfwrdd, Poteli a jariau gwydr, caniau / tuniau, poteli plastig a chynwysyddion | System bocsys pentyrru Trolibocs | Bob wythnos (Cerbyd Didoli Ochr y Ffordd) | 120L | 155L |
| Tecstilau/ esgidiau | Sachau tafladwy coch | Bob pythefnos (Wedi'i gasglu gan Fenter Gymdeithasol ar y prif ddiwrnod casglu ailgylchu) | 35L *Nid yw ledled y sir eto ac nid yw wedi ei hyrwyddo lawer* | 35L |
| Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach | Sachau tafladwy coch | Bob pythefnos (Wedi'i gasglu gan Fenter Gymdeithasol ar y prif ddiwrnod casglu ailgylchu) | - | 30L |
| Batris | Cyflwyno yn eich bag plastig eich hun | Wythnosol (Cerbyd Didoli Ochr y Ffordd) | - | 2L |
| Gwastraff Gweddilliol | Bin du ar olwynion | Bob 4 wythnos | 70L | 60L |
| Gwastraff Gardd (Gwasanaeth optio i mewn y codir amdano) | Bin gwyrdd ar olwynion | Bob 2 wythnos | 140L | 140L |
| **Cyfanswm** | | | **388L** | **445L** |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

### 5.1 Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, cefnogi lles a ffyniant economaidd:

Bydd y model gwasanaeth arfaethedig yn cynyddu maint ac ansawdd yr ailgylchu a gesglir o gartrefi, gan leihau ôl troed carbon y Cyngor a chydweithio gydag Awdurdodau eraill Cymru a Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd gweithgynhyrchu ailgylchu dolen gaeëdig yn y wlad. Bydd y Polisi Casgliadau Gwastraff Cartrefi drafft yn gwella monitro a rheoleiddio'r gwasanaeth, er mwyn mynd i'r afael â chartrefi a lleoliadau sydd wedi dangos diffyg cydymffurfio yn hanesyddol. Bydd hyn, ynghyd â chynnwys sachau "gwrth wylanod" yn ceisio gwella yr Ansawdd Amgylcheddol Lleol, yn enwedig yn ardaloedd canol y dref.

Bydd partneru â menter gymdeithasol yn Sir Ddinbych yn sicrhau cyflogaeth hirdymor i leiaf 9 o bobl a chymorth i o leiaf 18 o bobl ag anawsterau dysgu yn Sir Ddinbych

trwy gasglu, glanhau ac ailwerthu tecstilau. Mae cyfartaledd yr Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn amcangyfrif bod pob £1 a wariwyd trwy fenter gymdeithasol yn cynhyrchu £3 yn yr economi leol gan ddefnyddio'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae hyn yn golygu bod y gwerth o £23,000 o'r tecstilau yn creu o leiaf £69,000 o fewn yr economi leol.

**5.2 Amcan y Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylchedd - *"Effeithlon ac wedi'i Reoli'n Dda"*:**

Y dyluniad gwasanaeth arfaethedig yw'r opsiwn cost isaf i'r Cyngor dros gyfnod o saith mlynedd (lleiafswm), oherwydd yr arbedion refeniw sydd ar gael a'r cymorth cyllid cyfalaf a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Bydd yn dal i fod yn llawer rhatach na'r model presennol y tu hwnt i'r cyfnod saith (isafswm) cychwynnol hwnnw, er na fydd yr arbedion mor fawr oherwydd y gost o ddisodli'r fflyd newydd mewn 7-10 mlynedd. Bydd hefyd yn arwain at gael y deunydd o'r ansawdd uchaf, gan amddiffyn ffrydiau incwm yn y dyfodol. Dylid hefyd ystyried y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno mwy o rwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr ar weithgynhyrchwyr yn y dyfodol. Gallai cyllid sy'n deillio o Gynllun Cyfrifoldeb Cynhyrchydd newydd ei gyfrannu miliynau o bunnoedd i gefnogi cynlluniau casglu awdurdodau lleol lle mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu deunyddiau ailgylchu o ansawdd uchel trwy gael model casglu ailgylchu wedi'i ddidoli ymyl y ffordd.


## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cefnogaeth cyllid cyfalaf o £4 miliwn yn 2019/20 a £3 miliwn pellach yn 2020/21 ar gyfer y prosiect newid gwasanaeth. Mae'r arian hwn yn gwbl ddibynnol ar Sir Ddinbych yn gweithredu system didoli ymyl y ffordd ar gyfer deunyddiau ailgylchu sych. Nid yw'r costau terfynol sy'n ymwneud â'r datblygiadau depo sydd eu hangen i gefnogi'r model arfaethedig wedi'u cwblhau eto, ond disgwylir iddynt gynyddu'r costau cyfalaf cyffredinol y tu hwnt i'r amlen gyllidol gwerth £7 miliwn. Dylid nodi bod Argymhelliad 3.6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a WRAP i sicrhau'r holl gronfeydd cyfalaf ychwanegol sydd eu hangen i weithredu'r model cyn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r newid yn y gwasanaeth. Amlinellir rhyng-ddibyniaethau gyda gwasanaethau neu Bartneriaethau eraill yn **Atodiad IV**. Mae yna nifer o ryng-ddibyniaethau sy'n effeithio neu sydd â'r potensial i effeithio ar y modelu ariannol.

6.2 Mae canlyniad net y modelu diweddaraf (**Tabl 2**) wedi arwain at gynnydd mewn arbedion refeniw (£27K) o'r modelu cychwynnol a adroddwyd i Friffio'r Cyngor ym mis Mehefin 2018, gan fod yr arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchwyd o rannu cyfleusterau depo gyda Chonwy ar gyfer gogledd y Sir yn cydbwyso'r costau yn llawn i wella dyluniad y gwasanaeth. Mae'n bwysig nodi bod yr arbedion rhagamcanedig presennol o £807K yn ddarostyngedig i welliant pellach unwaith y bydd costau'r depo (a lleoliadau wedi'u cadarnhau) wedi'u cwblhau, ac y bydd unrhyw ofynion cyllid ychwanegol wedi'u nodi. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr arbedion hyn yn seiliedig ar waelodlin o gostau gwasanaeth sy'n berthnasol i'r gwaith modelu ond cyn 2018/19, er mwyn cynhyrchu cymariaethau o ystod o opsiynau cyflwyno gwasanaeth. Mae angen cyfrifyddu pellach unwaith y bydd y modelu wedi'i gwblhau i gyfrifo'r arbedion gwirioneddol mewn perthynas â chost cyfredol gwasanaeth casglu gwastraff cyfan Sir Ddinbych.

6.3 Ym mhob opsiwn, mae'r model KAT presennol yn tybio bod tecstilau yn cael eu casglu gan ein fflyd ein hunain a'n bod yn cadw'r gwerth o werthu'r deunydd (incwm o £23,000). Yn Atodiad III, mae swyddogion yn amlinellu manteision economaidd-gymdeithasol gweithio gyda Menter Gymdeithasol leol. Byddai hyn yn golygu bod yr incwm o £23,000 yn parhau i gael ei gadw gan y sefydliad sy'n ei gasglu. Gofynnir i'r Aelodau argymell parhad y Bartneriaeth hon o dan y dyluniad gwasanaeth newydd, gan gydnabod mai'r effaith gyffredinol fyddai gostyngiad net o arbedion refeniw ar draws yr holl opsiynau (Argymhelliad 3.3). Ar gyfer yr opsiwn arfaethedig byddai hyn yn golygu bod yr arbediad refeniw arfaethedig rhagamcanol yn gostwng i **£784K**.

**Tabl 2:** Model drafft cyfredol: Goblygiadau refeniw rhagamcanol yr holl opsiynau yn seiliedig ar ragdybiaethau modelu cyfredol




6.4 Yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r gwasanaeth newydd (2020/21) bydd costau untro i gyflwyno'r model gwasanaeth arfaethedig sydd heb eu cynnwys yn y modelu KAT. Bydd hyn yn cynnwys adfer a chyflwyno biniau ar olwynion, amser TGCh i ddylunio a diwygio ffurflenni ar-lein, adnodd staffio canolfan alwadau / tîm gwastraff technegol ychwanegol a chyllideb ymgyrch gyfathrebu. Tybir y bydd y costau hyn yn cael eu talu o'r cronfeydd wrth gefn presennol.

6.5 Bydd cronfa wrth gefn gwastraff gwerth £3.1 miliwn yn cefnogi'r gyllideb Gwastraff ac Ailgylchu o 2018/19 i 2020/21, er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau cyllideb presennol sy'n bodoli o fewn y gwasanaeth ac i hwyluso gweithrediad gwasanaeth cost is newydd. Ni fydd effaith blwyddyn lawn unrhyw gynilion sy'n deillio o'r newidiadau hyn yn cael eu gwireddu tan o leiaf 2021/22. Mae'n bwysig nodi na ragwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn gwastraff yn ddigon i gefnogi'r gwasanaeth y tu hwnt i 2020/21. Gallai oedi pellach i'r penderfyniad i weithredu model gwastraff newydd olygu y bydd diffyg cronfeydd wrth gefn. Felly, mae nodi arian cyfalaf ychwanegol, a phenderfynu ar leoliadau depo yn hanfodol i fforddiadwyedd y prosiect hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Cynhaliwyd asesiad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Prosiect Gwastraff ym mis Gorffennaf 2018 ac fe'i adolygwyd gan banel "Cyfeillion Beirniadol" mewnol ym Medi 2018. Diwygiwyd yr Asesiad ym mis Hydref o ganlyniad i ymgynghori pellach â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau ac oedolion diamddiffyn, a hefyd gyda menter gymdeithasol sydd ar hyn o bryd yn gyfrifol am gasglu tecstilau ar ran y Cyngor ar draws yr ardaloedd dwysedd uwch. At ei gilydd, mae’r newidiadau gwasanaeth arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol net. Mae manylion o'r WBIA i'w gweld yn **Atodiad II**.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad canlynol i hysbysu'r dyluniad arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth:

### 8.1 Arolwg Ailgylchu Mwy, Gwastraffu Llai a sesiynau galw heibio

Hyrwyddwyd yr arolwg hwn i drigolion Sir Ddinbych er mwyn deall lefelau capasiti presennol y cynwysyddion gwastraff presennol a'r galw posibl am finiau mwy a gwasanaethau amgen ar gyfer gwastraff hylendid a gwastraff anifeiliaid anwes. Cawsom 2300 o ymatebion ar-lein i’r arolwg a 150 copi caled pellach, a oedd ar gael mewn Siopau Un Alwad a llyfrgelloedd. Hyrwyddwyd yr arolwg ymhellach trwy gyfres o sioeau teithiol cyhoeddus a gynhaliwyd mewn llyfrgelloedd ledled y Sir. Mae ymatebion manwl yr arolwg i'w gweld yn **Atodiad V**. Y prif ganfyddiadau yw:

- Mae preswylwyr yn nodi bod biniau ailgylchu presennol yn llenwi mwy na biniau gweddilliol - yn seiliedig ar y casgliadau cyfredol bob pythefnos, mae ymatebion yn dangos bod 60% ohonynt yn adrodd bod eu Bin Glas yn llawn a dywedodd 25% arall ei fod yn orlawn; dywedodd 46% fod eu Bin Du'n llawn gyda 18% yn dweud ei fod yn orlawn;
- Hoffai preswylwyr fwy o fanylion / eglurder ynghylch yr hyn y gellir ei ailgylchu - mae ymatebion yn dangos byddai 60% yn hoffi mwy o wybodaeth am yr hyn y gellir ei ailgylchu;
- Byddai preswylwyr yn hoffi mwy o gapasiti ailgylchu - mae ymatebion yn dangos y byddai 49% yn hoffi lle ychwanegol yn eu cynwysyddion ailgylchu;
- Hoffai preswylwyr ailgylchu ystod ehangach o eitemau - mae ymatebion yn dangos y byddai 67% yn hoffi i fwy o eitemau y gellir eu hailgylchu gael eu casglu;
- Cysylltwyd â ni gan nifer o breswylwyr sydd ar gasgliadau sachau ar hyn o bryd a oedd yn pryderu na fyddai'r gwasanaeth newydd yn diwallu eu hanghenion. Rhoddwyd sicrwydd i'r ymatebwyr hynny y byddai cartrefi ar gasgliadau sachau yn cael eu darparu â system briodol i allu gwahanu eu gwastraff, a storio eu sbwriel na ellir ei ailgylchu.

### 8.2 Panel Asesu Effaith Ar Les

Mae adborth gan banel Cyfeillion Beirniadol Asesiad o Effaith Lles mewnol wedi hysbysu’r dyluniad gwasanaeth. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau anabl a nododd yr angen i gynnig ystod o fathau o gynhwysyddion ailgylchu i weddu i unigolion ag anghenion gwahanol. Bellach mae cysylltiadau cryf wedi'u sefydlu i sicrhau bod y

rhwystrau rhag defnyddio'r "Trollibocs" safonol neu gynwysyddion amgen yn cael eu lleihau a bod mecanweithiau wedi'u nodi i ddarparu cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth ddod i arfer gyda'r gwasanaeth newydd.

**8.3 Cyfranogiad Aelodau Etholedig**

Mae'r Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yn aelod o'r Bwrdd Prosiect Gwastraff sy'n goruchwylio datblygiad yr achos busnes. Mae tri adroddiad / cyflwyniad ar wahân wedi'u cymryd i Friffio'r Cabinet ym mis Chwefror, Ebrill a Mai 2018. Rhoddwyd cyflwyniad hefyd i'r holl Aelodau mewn sesiwn Briffio'r Cyngor ar 11 Mehefin 2018. Cafodd sesiynau galw heibio eu cyfathrebu / eu hyrwyddo'n eang, a bu nifer o Aelodau Etholedig yn y sesiynau. Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu hefyd yn rhan o'r broses ymgysylltu ag Aelodau Etholedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r cynnig yn dangos sut gellir gwella cyfraddau ailgylchu gyda newid o ran trefn casglu. Dylai'r cynnig fynd i'r afael â phwysau presennol ar y gyllideb hefyd o fewn y system gasglu bresennol. Mae'r pwysau yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cefnogaeth grant gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol o ran gallu darparu'r newidiadau cyfalaf gofynnol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Cofrestr Risg yn cael ei chynnal a'i monitro gan y Bwrdd Prosiect Gwastraff, ac mae'r fersiwn gyfredol (ar 11 Hydref 2018) ynghlwm yn **Atodiad VI**.

10.2 Y risg fwyaf, sy'n fwyaf tebygol o atal y prosiect rhag cael ei weithredu, neu achosi oedi sylweddol yw'r risg sy'n gysylltiedig â diffyg cyllid cyfalaf oherwydd cost yr isadeiledd depo sydd ei angen i dderbyn, didoli a sychu'r deunyddiau ailgylchadwy o ymyl y ffordd. Mae'r arbedion refeniw a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn wedi eu seilio ar ddanfon deunyddiau ailgylchu i orsaf swmpio bresennol yn Abergele, Conwy i wasanaethu Gogledd ein Sir, sy'n gofyn am addasiad ac ehangiad sylweddol. Mae cyfleuster trosglwyddo gwastraff a swmpio newydd hefyd yn cael ei ystyried yn Lôn Parcwr, Rhuthun i dderbyn yr holl wastraff ac ailgylchu o'r De, gan nad yw'r cyfleuster presennol yn addas.

**10.3** Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i gadarnhau costau'r ddau gyfleuster, gan fod hyn ar hyn o bryd yn cynnwys costau wrth gefn sydd wedi'u pwysoli'n drwm, wrth i ni aros am ganlyniad gwaith ymchwilio'r safle i ddeall amodau'r ddaear a'r goblygiadau sy'n codi o hynny. Yn ogystal, mae Swyddogion yn dilyn opsiynau depo eraill i benderfynu a oes unrhyw opsiynau cost is eraill, ac i benderfynu pa opsiynau a allai fod yn gymwys i dderbyn arian gan Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a / neu gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae **Atodiad VII** yn amlinellu'r ystod o opsiynau depo sy'n cael eu hystyried ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol (2000).

Mae Adran 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall Craffu “wneud argymhellion i'r Cabinet a/neu'r Pwyllgor priodol a/neu’r Cyngor sy’n deillio o ganlyniadau'r broses archwilio”.

## 12. Rhestr Atodiadau

| | |
|---|---|
| **ATODIAD I [A]** | Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd Arfaethedig |
| **ATODIAD I [B]** | Polisi Casgliadau Gwastraff Cartrefi Drafft |
| **ATODIAD II** | Crynodeb o’r Asesiad o’r Effaith ar Les |
| **ATODIAD III** | Adroddiad Modelu KAT (Depos: Gofer, Conwy a Lôn Parcwr, Rhuthun) |
| **ATODIAD IV** | Rhyng-ddibyniaethau'r Prosiect |
| **ATODIAD V** | Canlyniad yr Arolwg Ailgylchu Mwy, Gwastraffu Llai |
| **ATODIAD VI** | Cofrestr Risg y Prosiect |
| **ATODIAD VII** | Crynodeb Opsiynau Depo |

**Swyddog Cyswllt:**

Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu

Ffôn:  01824 712103